2/12

# CAN

# Y BLOTYN DU.

**Yn dangos y modd y lladdodd Mam a Thad eu Mab mewn trachwant am arian.**

Gwrandewch ar stori greulon
Fu gynt yn ngwlad y Saeson,
Gerllaw caerau pentref Caer,
O fewn i Gornwal dirion.

Hen wr oedd yno'n tario,
A'i blant o'i ddeutu'n trigo,
A'i fab hynaf yn ddiwad
A'i fwriad ar drafaelio.

I'r mor fe fynai fentro,
Yn brentis ca'dd ei rwymo,
Dros saith mlynedd efo'r *Prince*,
Nis gwyddai ei ffryns oddiwrtho.

Bu'n morio tri saith gaua'
Ar gôst y Twrc a'r India,
Yn 'speilio'r gwyr a'u taflu i'r môr,
'Nol dwyn eu trysor pena.'

Ca'dd dywydd drwg aniddan,
Daeth gwynt yn groes i'w amcan,
A daeth y llong mewn cyflwr gwael
I'r lan i Gornwal hafan.

I dŷ ei chwaer fe gerddai,
Fel dyeithr fe ofynai,
A oes trafaeliwr i chwi'n frawd?
A ydyw'r cymrawd gartref?

Mae i mi frawd gobeithio
A'i fwriad ar drafaelio,
Ac ar ei fraich mae Blotyn Du,
Nis gwn be ddarfu iddo.

Fi yw'r trafaeliwr calad,
A'r Blotyn Du sy i'w weled,
Pa sut mae hynt fy mam a'm tad,
Pa sut mae'm 'stâd yn 'styried?

Mae'r stâd yn ddifai ddigon,
Pob rhodd sy'n rhwym a graslon,
Ond ei bod yn myn'd ar feth,
Ac arni beth dyledion.

Dywedodd yntau, Ymroaf
I wneyd pob brys a allaf;
Bore foru coda'n llon,
A'i holl ddyledion talaf.

OC 36229638

I dŷ ei dad fe gerddai,
Fel dyeithr fe lettyai,
Fe ro'i gôd i wraig y tŷ,
I'w chadw hyd y bore.

Y gwr a'r wraig ddywedai'n isel,
Ni gawsom hyn mewn gafael ;
Mae genym ddigon ar ein tro,
Ond i ni ei fwrdro'n ddirgel.

Tra'r mab yn tawel huno,
A'r gyllell gwnant ei fwrdro,
A'i fam yn dal mewn purion pwyll,
Y ganwyll, i'w lofruddio.

I'r daflod wair hwy'i taflent,
Ac yno hwy a'i gad'went,
Nes caent hwy le mewn dirgel fan,
Ro'i ddwyrudd dan ddaearen.

Ei chwaer ddo'i yno'n foreu,
A phob rhyw faeth a moethau,
I roeso ei hanwyl frawd i'r wlad,
Am dano i'w thad gofynai.

Pwy frawd wyt ti'n ymofyn ?
Nis bu yma neithiwr undyn :
O! do yn wir, na wadwch ddim,
Dangosodd i mi'r Blotyn.

Dechreuai'r hen wr dyngu.—
Pwy felldith a ddaeth imi?
Os lleddais i fy mab fy hun,
Dof finnau i'r un dihenydd.

A'r wraig, d'wedai hithau,
Os fi fu'n dala'r goleu,
'E gaiff y gyllell yr un wedd,
I wneyd fy niwedd inau.

Pan wela'r ferch dair celain,
Mewn dychryn y gwnai ochain.
Aeth maes o'i chof, ac felly bu.
Nes row'd hi tan ddaearen.

Mae hanes y gyflafan,
A diwedd teulu cyfan,
Yn wers ryfedd i ni gyd
Rhag caru'r byd a'i arian.

O! Gymru anwyl, gwelwch,
Ddrygioni Ariangarwch,
Rhag eich hudo gan y chwant
Yn wir ddiffuant, gwyliwch.

---

Evan Williams, Argraphydd, Market Place, Bangor.